

CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.
Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog
y Gaerwen, Nos Fawrth, 26ain IONAWR 2016.

PRESENNOL:

Cynghorydd Einion Parry Williams (Cadeirydd), Cynghorwyr Barbara McKeaveney, Mr W
Raymond Evans, Mr Edward J Thomas, Mr Meirion Thomas, Mrs Janet Hughes, Mr John D
Pritchard, Ms Linda Jones, Mr Mike Jones, Mr Ian Owen &
Mr J Alun Foulkes (Clerc).
Cynghorwr Sirol: Mr Hywel Eifion Jones.

YMDDIHEURIAD:

Cynghorwyr Mrs Catherine Jane Hughes, a Cynghorwr Sirol: Mr T Victor Hughes.

1 CROESO.

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd i'r cyfarfod.

2 DATGAN DIDDORDEB.

2.1 Dangosodd Cyng Linda Jones Diddordeb Rhagfarnol mewn ceisiadau cymorth ariannol Ti & Fi Gaerwen ac Adran yr Urdd, Gaerwen (eitem 13.3). Mi arhosodd yn yr ystafell ond ni chymerodd rhan mewn unrhyw drafodaeth / penderfyniad.

3 ADRODDIAD Y CYNGHORWYR SIROL.

Cafwyd adroddiad ar lafar oddiwrth y Cynghorydd Sirol Mr Eifion Jones ar y canlynol:

3.1 Llifogydd Pentre Berw – cafwyd adroddiad llawn ganddo yn dilyn helyntion ers dechrau Mis Rhagfyr ac fod diffyg carthffosiaeth yn y pentref ers blynnyddoedd. Dangoswyd pryder Iechyd & Diogelwch gan aelodau ac fe fydd rhaid ystyried carthffosiaeth fel rhan o sylwadau pan dderbynnir ceisiadau cynllunio. Dywedodd y Cynghorydd fod cyfarfod gyda Dŵr Cymru a'r Cyngor Sir wedi ei drefnu ar yr 8fed Chwefror 2016 lle bydd Cynghorydd Victor Hughes hefyd yn bresnnol ac disgwylir adroddiad ysgrifenedig erbyn y cyfarfod nesaf.

Penderfyniad: Anfon llythyr at Dŵr Cymru yn cefnogi unrhyw cynllun arfaethedig.

Arwyddo.....

1.

3.2 **Safle Teithiwyd (Sipsiwn)** – cafwyd adroddiad llawn ganddo yn dilyn penderfyniad adroddiad y Pwyllgor Gwaith i ddynodi safleoedd er mwyn ufuddhau gofynnion ddogfen Cynllun Adnau Cynllunio Lleol ar y Cyd Gwynedd & Môn. Dywedodd fod y penderfyniadau wedi derbyn ymateb cryf yn erbyn yr argymelliadau ac fe soniwyd fod safle yng Nghaerwen yn UN sydd wedi ei ystyried.

Oherwydd yr hyn sydd wedi digwydd, disgwylir Papur Ymgynghori erbyn y cyfarfod nesaf er mwyn ymateb erbyn yr 11eg Mawrth 2016.

4 DERBYN COFNODION CYFARFOD BLAENOROL.

4.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod 24ain o Dachwedd 2015 yn gywir. (LJ/ET).

5 MATERION CAEAU CHWARAE.

5.1 **Ffensio Cae Chwarae Gaerwen Uchaf** – oherwydd y tywydd gwlyb, nid oedd y gwaith atgyweirio wedi cychwyn dechrau'r flwyddyn. Hefyd i atgoffa Mr Huw Frazer Owen fod angen llungopi o'i ddogfen Yswiriant.

5.2 **Prydles Cae Peldroed y Gaerwen** – dywedodd y Clerc ei fod wedi siarad gyda'r Cyngor Sir ac fe ddywedwyd ni fyddant yn fodlon adnewyddu ar hyn o bryd ac i ddisgwyl llythyr ganddynt yn agosach i'r dyddiad terfynnu. Yn y cyfamser, fe ddywedodd Cyng Ian Owen fod hi'n bosib i'r Ysgol ail-hawlio y stripyn o dir oherwydd rhesymau datblygu. Soniwyd hefyd fod y Clwb Peldroed wedi trefnu digwyddiad gyda Bryn Fôn yn yr Hâf er mwyn codi arian ac nad oedd hyn yn nhermau y prydles. **Penderfyniad:** Cysylltu gyda'r Clwb Peldroed yn gofyn iddynt anfon llythyr i'r Cyngor Cymdeithas am caniatad a cadarnhad trefniadau yswiriant.

5.3 **Twrch Daear** – cafwyd adroddiad fod y tyrchod wedi dychwelyd i'r Cae Swings. **Penderfyniad:** Y Clerc i cysylltu a trefnu fod y gwaith angenrheidiol yn cael ei wneud.

5.4 **Difrod Cae Mawr** – y Cyng Ian Owen i cael cip olwg ar y difrod i'r gôl ac adrodd yn nol i'r cyfarfod nesaf.

6 MATERION LLWYBRAU.

6.1 **Llwybr 16 ger Pennant, Pentre Berw** – roedd y Clerc wedi derbyn ymateb oddiwrth y Cyngor Sir yn cadarnhau eu bod wedi bod i'r safle ac nid oedd y coeden dan sylw yn amharu yn fawr efo cerddwyr ar hyn o bryd ond yn cynnig tocio ambell gangen ar y gwaelod. Dywedwyd nad oedd y goeden wedi ei leoli ar tir sy'n eiddo i Pennant ond ar

Arwyddo.....

2.

ddarn o dir sydd heb ei gofrestru gan y Gofrestra Dir. Roeddynt yn ymwybodol fod perchnogion Pennant wedi cysylltu efo'r Cyngor Sir ychydig fisoedd yn ôl yn gofyn torri'r goeden ond ni chymerwyd y cyfrifoldeb gan nad ydi wedi gwreiddio ar y briffordd er nad oedd ganddynt gwrthwynebiad iddynt torri'r goeden. Os bydd y goeden yn parhau i achosi niwsans i gerddwyr yn y dyfodol, fe fydd rhaid i'r Cyngor Sir cymeryd y gyfrifoldeb oni bai gellir darganfod perchennog ar gyfer y tir.

7 MATERION PRIFFYRDD.

7.1 **Mynedfa Stâd Tyn Rhos i Chapel Street** – ymateb y Cyngor Sir yn dweud fel arfer ni fyddant yn rhoddi drych o fewn ardaloedd 30 a 40mya, fodd bynnag, y byddant yn trefnu i

Arolygydd Traffif archwilio'r safle. Roeddynt hefyd wedi atodi polisi darparu drych traffig er gwybodaeth i'r Cyngor

7.2 Parcio ger Safle y Gofeb – adroddiad oddiwrth y Cyngor Sir yn cadarnhau fod y lleoliad wedi ei ychwanegu at y rhestr o leoliadau lle mae angen newid neu ychwanegu gwaharddiadau parcio. Gan fod y broses yn un gyfreithiol gyda'r angen hysbysu rhybudd mewn papur newydd, ceir costau sylweddol wrth wneud unrhyw ychwanegiadau o'r math yma. O galyniad mae'r arferol fod unrhyw newidiadau yn cael eu wneud fesul ardal neu ward, felly bydd y cais yma yn derbyn sylw pan fydd ystyriaeth yn cael ei roi i faterion cyffelyb Ward Bro Rhosyr. Cafwyd trafodaeth bellach a cwynion fod cerbyd wedi dechrau parcio ochr arall i fynedfa Lon Groes ac oherwydd y datblygiad ychwanegol, penderfynwyd ofyn i'r Cyngor Sir ystyried ymestyn a gosod llinellau i gynnwys y safle yma.

7.3 Safle Depot Gaerwen – darllenwyd ymateb y Cyngor Sir eu bod eisoes wedi pasio y mater yw Contractwyr sydd yn gyfrifol am thacluso'r safle.

7.4 Safle Little Chef – darllenwyd ymateb y Cyngor Sir a oedd wedi bod ar y safle ac yn cadarnhau nad oedd gordyfiant yn effeithio'r briffordd ac mai cyfrifoldeb y tiffeddianwr oedd tacluso'r chwyn a oedd wedi dechrau tyfu ar y safle.

7.5 Safle 2 Bronllys, Gaerwen – darllenwyd ymateb y Cyngor Sir yn dilyn ymweliad ar safle ac yn cadarnhau y bydd y Gang Cymunedol yn mynd I atgyweirio y gyrben.

7.6 Cysgodfan gyferbyn Canolfan Hamdden – roedd y Cyng Ian Owen am gysylltu gyda Mr Dafydd Hughes am wneud archwiliad er mwyn paratoi amcanyfrif ac fe ddisgwylir i hyn fod o gwmpas £1,000.00.

Arwyddo.....

3.

7.7 Croesfan Pelican ar yr A5 – darllenwyd ymateb y Cyngor Sir ac fod y gwaith mewn llaw ac fod yr oediad oherwydd y tywydd garw.

7.8 Cilfan Pentre Berw – nodwyd llythyr Mrs M Kay, 1 Ty Coch, Pentre Berw ac ymateb y Cyngor Sir iddi yn dwyn sylw yn bellach am y pryderon a phroblemau parcio wrth y safle yma. Penderfyniad: Oherwydd y gwahanol negeseuon - y Clerc I ddarparu ac anfon llythyr i'r Cyngor Sir yn gofyn iddynt am eu sylwadau pendant er mwyn datrys y sefyllfa anfodddhaol

7.9 Llifogydd Stad Ty Croes, Gaerwen – darllenwyd llythyr wedi ei dderbyn oddiwrth Mrs Elizabeth Williams, Bro Ddewi, Ty Croes yn dwyn sylw am y digwyddiad ym Mis Rhagfyr. **Penderfyniad:**

Nodi & Cydnabod y llythyr a dwyn sylw ein pryderon i'r Adran Briffyrdd

7.10 Gorchymyn y Cyngor Sir (Gwahardd Traffig Trwodd Dros Dro) (Croesfan Rheilffordd Gaerwen) 2016 – nodi y bydd y safle ar gau rhwng 8:00yb hyd at 3:00yp ar y 14eg Chwefror 2016.

7.11 Pafin tu allan yr Iard Geir gyferbyn a Stermat ar y A5 – nodwyd fod yno twll ar y pafin ger y safle. **Penderfyniad:** Dwyn sylw yr Adran Briffyrdd.

7.12 **Cyflwr y Ffordd o Lon Groes hyd at Lon yr Orsaf, Llanddaniel** – derbyniwyd cwyn fod cyflwr y ffordd yn ddifrifol ac fod perchennog Ty Gwyn wedi gwneud difrod i'r glaswellt wrth parcio ar y safle.
Penderfyniad: Dwyn sylw yr Adran Briffyrdd.

8 **CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD & PENDERFYNIADAU Y CYNGOR SIR.**

8.1 **Cais Llawn ar gyfer newid defnydd o Uned Gwag B2 i Uned D2 (Canolfan Iechyd & Ffitrwydd) yn**
Lleoliad: Uned 31, Stad Diwydiannol Gaerwen. Rhif Cais 33C20W/3.
Penderfyniad: DIM SYLWADAU.

9 **PENDERFYNIADAU YR ADRAN CYNLLUNIO.**

9.1 Cais Amlinellol y Parc Gwyddoniaeth wrth ymyl Cefn Du, Gaerwen.
Rhif Cais: 33C304B/ECON **Penderfyniad:** **CANIATÂD.**

9.2 Cais Mân Newidiadau Cynllun Caniatad Cynllunio 33C209F er mwyn caniatâu Addasu Lleoliad yr Anedd o fewn y safle ar dir ger Terfyn, Pentre Berw.
Rhif Cais: 33C209G/MIN **Penderfyniad:** **CANIATÂD.**

Arwyddo..... 4.

9.3 Cais Llawn Codi Garej gyda Storfa Uwchben yn The Old Windmill, Gaerwen.
Rhif Cais: 33C275B **Penderfyniad:** **CANIATÂD.**

10 **YMGYNGHORIAD Y GRID CENEDLAETHOL (Peilonau)**

10.1 Cadarnhaodd y Clerc fod ymateb y Cyngor Cymdeithas i'r Ymgynghoriad wedi ei gyflwyno atynt erbyn y dyddiad cau: 16 Rhagfyr 2016 ac fe ddiolchwyd i pawb, yn arbennig Cyng W Raymond Evans am eu gwaith caled yn y fater.

11 **MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAID RISG.**

11.1 **Adroddiad Ariannol Misol:**
Cyflwynwyd ac fe arwyddwyd adroddiad taliadau a derbyniadau Mis Rhagfyr 2015 yn cynnwys cysoniad banc a datganiad y banc.

11.2 **Taliadau:**
Yn ogystal a rhestr taliadau amlinellwyd yn 11.1, penderfynwyd talu'r canlynol:

171	J Alun Foulkes	Cyflog Mis Rhagfyr 2015 & Ionawr 2016	£480.00
172	HMRC	PAYE	£120.00

11.3 **Taliadau S137:**
Penderfynwyd gwneud y taliadau S137 canlynol:

Pwyllgor Canolfan Esceifiog	£2,000.00	(BM/MJ)
-----------------------------	-----------	---------

Cylch Ti & Fi	£50.00	(ET/WRE)
Adran Urdd Gaerwen	£50.00	(BM/EW)
Uwch Adran Urdd Gaerwen	£50.00	(IO/ET)
Eisteddfod Genedlaethol Mon 2017	£500.00	(IO/ET)

- 11.4 Ni ystyriwyd ceisiadau wedi ei derbyn oddiwrth:
- i. Pwyllgor Rhanbarth Urdd Gobaith Cymru ar Ynys Mon.
 - ii. Ambiwylans Awyr Cymru.
 - iii. Dawns I Bawb.

11.5 **Materion Gweinyddu:**

- 11.5.1 Nodwyd llythyr o ddiolch oddiwrth Cymdeithas Hamdden Esceifiog am y rhodd dderbyniwyd gan y Cyngor.

Arwyddo.....

5.

- 11.6 **Asesiad Risg:**
Dim i Adrodd yn ôl.

- 11.7 Penderfynnu ar Preiseb y Cyngor 2016 – 2017.

Gwariant:

Caeau Chwarae	-	£2,500.00
Llwybrau	-	£1,750.00
Clerc	-	£3,720.00
Yswiriant	-	£1,400.00
Aelodaeth	-	£215.00
Costau Gweinyddu	-	£400.00
Rhenti	-	£265.00
Rhoddion S137	-	£6,000.00
Costau Archwiliad	-	£300.00
TAW	-	£750.00
Gwefan	-	£250.00
Cysgodfannau	-	£1,000.00
Manion Eraill	-	£100.00
CYFANSWM	-	£18,650.00

Derbyniadau:

Priseb 2016 – 2017	-	£16,500.00
Llwybrau	-	£1,300.00
Rhent	-	£265.00
TAW	-	£884.00
CYFANSWM	-	£18,949.00

O ystyried gwariant, derbyniadau ac arian wrth gefn fydd gan y Cyngor ar y 31ain Mawrth 2016, penderfynwyd codi'r priseb o £15,300.00 > £16,500.00 y flwyddyn. (IO/ET).

- 12.1 Fforwm Mynediad Lleol – adroddiad oddiwrth Cyng Edward Thomas ynghylch a costau a phroblemau cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus.
- 12.2 Un Llais Cymru – adroddiad, yn arbennig, cyflwyniad yr ymgyrch sydd gan Pwyllgor Gemau'r Ynysoedd i wahodd y Gemau i'r Ynys yn 2025 ac y bydd rhaid codi odditeu £40,000 gyda cais gerbron Bwrdd Gemau'r Ynysoedd ymhen 9 mis.

Arwyddo.....

6.

- 12.3 Pwyllgor Canolfan y Neuadd – adroddiad oddiwrth Cyng Ian Owen;
- a. Cais ariannu Tarmacio y Maes Parcio wedi ei wneud.
- b. Cais Arian I Bawb (£5,000) wedi bod yn llwyddiannus er mwyn gosod Cegin Newydd i'r Canolfan.

13 GOHEBIAETH

- 13.1 Dogfen Ymgynghori Safle Trafeiliwyr – eisoes wedi ei drafod.
- 13.2 Ymgynghoriad ar Ffyrdd Newydd Gosod Tai Cymdeithasol ar Ynys Mon – y Cadeirydd i Cwblhau'r Ddogfen a'i yrru yn ôl i'r Cyngor Sir erbyn y 6ed Mawrth 2016.
- 13.3 Datganiad y Cyngor Sir yn 'gwella gwasanaethau' yn ol adroddiad archwilio newydd er gwybodaeth yn unig.
- 13.4 Datganiad y Cyngor Sir yn ystyried casgliadau 'bin du' pob tair wythnos – pob aelod wedi derbyn copi er gwybodaeth yn unig.
- 13.5 Newyddion Rhun ap Iorwerth am Misoedd Tachwedd & Rhagfyr 2015.
- 13.6 Adroddiadau Diweddar Betsi Cadwaladr – pob aelod wedi derbyn copi er gwybodaeth.
- 13.7 Datganiad Swyddfa Archwiliad Cymru – Gwariant Gwasanethau Hamdden – pob aelod wedi derbyn copi er gwybodaeth.
- 13.8 Dogfen Adnoddau Naturiol – Llywodraeth Cymru – pob aelod wedi derbyn copi er gwybodaeth yn unig.

14. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 23ain CHWEFROR 2016.

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clwyd y cyfarfod am 9:30yh.

Arwyddo.....Cadeirydd.....
.Dyddiad.

TUDALEN 7.